# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 16 Medi 2015

Amser: 09.15 - 11.58

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/3219

## Attendance

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Ann Jones AC (Cadeirydd)<br>Angela Burns AC<br>Keith Davies AC<br>Suzy Davies AC<br>Bethan Jenkins AC<br>Lynne Neagle AC<br>Aled Roberts AC<br>Simon Thomas AC |
| Tystion: | Steve Davies, Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)<br>Hannah Woodhouse, Consortiwm Canol De Cymru<br>Deborah McMillan, Consortiwm Canol De Cymru<br>Chris Elmore |
| Staff y Pwyllgor: | Marc Wyn Jones (Clerc)<br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

| | |
|---|---|
| | Sian Thomas (Ymchwilydd)<br><br>Stephen Davies (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan John Griffiths a David Rees. Nid oedd Aelodau'n dirprwyo ar eu rhan.

## 2 Trafodaeth gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol - Gwasanaeth Cyflawni Addysg De-ddwyrain Cymru (EAS)

Gwnaeth Aled Roberts ddatgan ei fod yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol, gwnaeth Keith Davies ddatgan ei fod yn llywodraethwr ysgol a gwnaeth Bethan Jenkins ddatgan bod ei mam yn athrawes mewn ysgol ym Mhontypridd.

Bu'r Pwyllgor yn trafod canfyddiadau adroddiadau Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru gyda chynrychiolwyr o'r Consortia Addysg Rhanbarthol.

Cytunodd Consortiwm EAS i ddarparu nodyn ar gyflwyno a gwerthuso'r rhaglenni cynefino newydd sy'n cefnogi athrawon sydd newydd gymhwyso a gyflogir fel athrawon cyflenwi tymor byr.

## 3 Trafodaeth gyda'r Consortia Addysg Rhanbarthol – Consortiwm Canol De Cymru

Cytunodd Consortiwm Canolbarth y De i ddarparu nodyn ar gostau diswyddo staff a dadansoddiad o'r 1.6 miliwn o gyllid ar gyfer cronfeydd adeiladu capasiti her ysgolion.

## 4 Papurau i'w nodi

Nodwyd y papurau.

**4.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Y Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru)**

**4.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau – P-04-628 Mynediad at Iaith Arwyddion Prydain i bawb**

**4.3 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau – Ymchwiliad i waith athrawon cyflenwi**

**4.4 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau – Sefydlu Cymwysterau Cymru**

**4.5 Llythyr gan y Llywydd – Digwyddiad Senedd@**

**4.6 Llythyr gan y Llywydd – Bil Cymru drafft**

**4.7 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - CAMHS**

**4.8 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau - P-04-552 Diogelu Plant**

**4.9 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau – Llythyr dyrannu cymorth grant i Cymwysterau Cymru**

**4.10 Llythyr gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel**

**4.11 Rhagor o wybodaeth gan Gomisiynydd y Gymraeg yn dilyn y cyfarfod ar 8 Gorffennaf**

**4.12 Llythyr gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol - Adolygu trefniadau clustnodi ariannol ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru**

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Oherwydd diffyg amser, ni aeth y Pwyllgor i sesiwn breifat.

## 6 Cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2016-17 – trafod llythyron drafft

Nid oedd digon o amser i'r Pwyllgor drafod y llythyrau drafft. Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r llythyrau hyn yn cael eu hystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.